Cysylltu
Trawsffurfio
Cymell

iCTM

Connect
Transform
Motivate

Innovation

# Cyfaill Llinell

## AMCANION

Wedi'i amlygu gan Glinigwyr a oedd yn trafod arfer yn eu meysydd ar gyfryngau cymdeithasol, cafodd pryder ei nodi ynglyn a bod rhai dulliau rheoli llinell trwyth a drafodwyd yn anniogel ac nad oedd atebion diogel yn cael eu cynnig.

## ATEBION

Llwyddodd iCTM i ddylunio prototeip yn gyflym i ganiatáu rheolaeth ddiogel o linellau trwyth o fewn meysydd gofal critigol. Mae darparu gofal yn y meysydd hyn yn gofyn am ganfod ceblau cleifion a llinellau trwyth yn ddiogel, yn aml mewn sefyllfaoedd dan bwysau.

Datblygwyd y Cyfaill Llinell iCTM ar draws ein labordai argraffu 3D a gyda chefnogaeth gan ein partner diwydiant i gynghori methodolegau cynhyrchu roeddem yn gallu dechrau gwerthusiad clinigol o'r ddyfais yn Adran UThD Ysbyty Tywysoges Cymru.

## MANTEISION

### Mantais un

Mae'r cynnyrch hwn wedi'i fasnacheiddio ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn derbyn breindal ar bob gwerthiant.

### Mantais dau

Mae'r cynnyrch hwn yn cefnogi busnesau Cymru i weithio gyda GIG Cymru.

### Mantais tri

Mae'r cynnyrch hwn wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y diwydiant ac mae'n cael ei weithgynhyrchu ar gyfer y GIG. Mae'r ddyfais bellach ar gael i'w phrynu gan Innotech Engineering Limited.



*"Roedd hwn yn gyfle cyffrous i iCTM weithio ochr yn ochr â'n partneriaid yn y diwydiant i ddylunio cynnyrch a fydd yn gwella rheolaeth llinell trwyth o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol CTM."*

**Lauren Ware**

lauren.ware@wales.nhs.uk